

## Nodiadau cyfarfod gyda disgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton

Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018 am 2.30pm

### Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd

#### Yn bresennol:

Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Non Morgan, Arweinydd Carfan Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion  
Nifer y disgyblion yn bresennol: 9

#### Cyflwyniadau

Gofynnodd GD a oedd y disgyblion yn deall beth oedd y cynigion. Roedd llawer yn eu deall.

Eglurodd GD y rhesymau dros y cynigion, sef sicrhau y byddai pob disgybl yn cael bod mewn ysgol fodern yn yr 21ain ganrif.

Cafodd y newidiadau arfaethedig i bob ysgol sy'n rhan o'r cynnig yma eu nodi fel a ganlyn:

- Chweched dosbarth newydd yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog ar gyfer dros 400 o ddisgyblion (a chau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain);
- Dwy ysgol newydd ar gyfer disgyblion 3-16 oed ar safle Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen;
- Mwy o leoedd ysgol Cyfrwng Cymraeg mewn ysgol newydd sbon ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Byddai disgyblion o Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton hefyd yn mynd i'r ysgol Cyfrwng Cymraeg llwyr yma;
- Byddai'r dalgylchoedd ar gyfer rhai ysgolion yn newid, h.y. byddai'r ysgol y byddech chi'n debygol o fynd iddi yn dibynnu ar y stryd lle'r ydych chi'n byw yn newid i rai disgyblion yn y dyfodol;
- Ysgol 3-16 Pontypridd fyddai Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd gyda'i gilydd;
- Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen fyddai Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd Heol y Celyn (ffrwd Cyfrwng Saesneg) ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen gyda'i gilydd;
- Erbyn 2022, y cynnig yw y bydd adeilad ysgol newydd a manau chwarae y tu allan ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn ar gyfer disgyblion Cyfrwng Cymraeg;
- Dylai disgyblion Cyfrwng Saesneg o Ysgol Gynradd Heol y Celyn fynd i'r ysgol 3-16 yn y Ddraenen Wen. Mae llawer o arian yn cael ei wario ar yr ysgol yma hefyd;
- Buddsoddiad o £12 miliwn yn Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen, ynghyd â £10.7 miliwn ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Esboniodd GD mai pwrpas y cyfarfod gyda'r disgyblion heddiw oedd i'r Cyngor glywed a chofnodi safbwyntiau'r disgyblion am y cynigion, gan fod eu barn yn bwysig iawn i'r Cyngor.

Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, gofynnodd GD rai cwestiynau i'r disgyblion:

**C. Gofynnodd GD a oedd y disgyblion yn deall y cynigion.**

A. Cytunodd pob disgybl eu bod nhw'n eu deall.

**C. Gofynnodd GD beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am y cynigion.**

A. Rhestrodd y disgyblion y canlynol:

- Os yw'r disgyblion yn dod at ei gilydd, mae cyfle i gael ffrindiau newydd.
- Bydd rhagor o glybiau ar ôl yr ysgol gyda mwy o staff a mwy o ddisgyblion.
- Offer newydd sbon.
- Iard wastad. Bydd modd i'r disgyblion chwarae pêl-droed.

Esboniodd GD y bydd modd sefydlu clybiau brecwast hefyd.

**C. Gofynnodd GD a oedd unrhyw bryderon ynghylch y cynigion?**

A. Eglurodd y disgyblion eu bod wedi cynnal arolwg. O ran y canlyniadau, roedd rhai disgyblion yn poeni am gael ffrindiau newydd a cholli aelodau'r staff, ond ar y cyfan doedd dim pryderon mawr.

Eglurodd GD y bydd llawer o gyfleoedd i wneud ffrindiau newydd a bydd gyda'r disgyblion rhagor o ffrindiau wrth iddyn nhw symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

**C. Gofynnodd GD am farn y disgyblion ar sut roedd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal.**

A. Awgrymodd y disgyblion y dylid defnyddio trafodaethau grŵp ac iPads.

Yna cafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau.

**C. Sawl disgybl fydd yn mynd i'r ysgol newydd?**

A. Bydd gan yr ysgol 480 o leoedd ar gyfer disgyblion dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 a 60 o leoedd ar gyfer disgyblion meithrin. Bydd mwy o staff, sy'n golygu y byddai modd cynnig rhagor o glybiau.

**C. Beth fydd enw'r ysgol newydd?**

- A. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r disgyblion, y staff a'r gymuned. Bydd raid i lywodraethwyr yr ysgol gyflwyno awgrymiadau yn seiliedig ar eich safbwyntiau. Yna, byddan nhw'n argymhell yr enw i'r Cyngor. Wedyn, bydd y Cynghorwyr yn penderfynu ar enw terfynol yr ysgol.

**C. Mae Ysgol Evan James wedi'i henwi ar ôl person. A fyddai modd i ni enwi'r ysgol newydd ar ôl William Edwards, sef y dyn a adeiladodd y bont ym Mhontypridd?**

- A. Bydd modd i ddisgyblion fynegi eu barn ar enw'r ysgol.

**C. Beth fydd y wisg newydd?**

- A. Bydd modd i ddisgyblion fynegi eu barn ar unrhyw wisg newydd.

**C. Pa staff fydd yn yr ysgol newydd?**

- A. Bydd yr ysgol yn fwy o faint a bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau proses lle bydd modd i'r staff presennol geisio am swyddi yn yr ysgol newydd.

**C. Fydd yna iard fawr?**

- A. Bydd ardal gyda glaswellt ac iard fawr. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Ar ôl ei chwblhau bydd yr hen adeilad ysgol yn cael ei dymchwel, fel bod modd cael lle i fwy o gyfleusterau chwarae, gan gynnwys ardal gemau amldeffnydd.

**C. A fydd yr ysgol newydd yn barod erbyn 2022?**

- A. Os bydd cytundeb ar y cynnig, bydd. Mae nifer o ysgolion newydd wedi'u hadeiladu a'u cwblhau ar amser.

**C. A fydd amser dechrau a gorffen yr ysgol yn aros yr un fath?**

- A. Bydd angen i'r corff llywodraethu dros dro a'r Pennaeth newydd drafod yr amseroedd yma.

**C. A fydd ffens i gadw'r disgyblion hŷn ar wahân?**

- A. Mae gyda rhai ysgolion ffens, mae gyda rhai linell ar y llawr sy'n marcio'r ardal, ond bydd gyda'r feithrinfa ei hardaloedd chwarae meddal ei hun.

**C. Pa gyfleusterau newydd fydd yn yr ysgol newydd?**

A. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwella safon yr holl gyfleusterau mewnol ac allanol. Bydd offer TG a thechnoleg newydd, man canolog, neuadd ac ardal fwyta newydd a llawer o gyfleoedd i chwarae a dysgu yn yr awyr agored.

**C. A fydd digon o adnoddau i bawb?**

A. Bydd popeth yn newydd sbon.

**C. Pam dewis safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn?**

A. Mae'r Awdurdod Lleol yn edrych ar safleoedd yr ysgolion presennol ac yn adolygu cyflwr yr adeiladau a'r lleoedd dros ben. Rydyn ni hefyd yn edrych ar anghenion y gymuned ac os oes galw mawr am addysg Gymraeg. Mae angen i'r Awdurdod Lleol ddiwallu'r angen yna. Rydyn ni'n gobeithio rhoi'r cyfle i fwy o ddisgyblion ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni eisiau darparu gwell cyfleoedd i bawb ac mae safle Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn wych o ran ei faint mewn perthynas ag adeiladu ysgol newydd.

**C. A fydd tîm pêl-droed Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn erbyn tîm pêl-droed YGG Pont Siôn Norton?**

A. Na, bydd un ysgol ac un tîm, mewn cymuned newydd.

**C. Yn yr Eisteddfod nawr mae yna wahanol ysgolion yn cystadlu. A fyddwn ni'n cystadlu yn erbyn Ysgol Gynradd Heol y Celyn?**

A. Na, byddwch yn un tîm mawr yn yr ysgol newydd, yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill.

**C. A fydd Cyngor Ysgol newydd a Chyngor Eco yn yr ysgol newydd?**

A. Bydd. Bydd y Pennaeth newydd yn gweithio gyda'r staff a'r disgyblion i sefydlu Cyngor Ysgol newydd a Chyngor Eco newydd.

**C. Mae angen cofio a chynnal hanes y ddwy ysgol**

A. Mae hyn yn bwysig. Efallai y bydd yr ysgolion am weithio ar brosiect, er enghraifft, creu llyfrau atgofion.

**C. A fydd yna Neuadd Ysgol?**

A. Bydd, ac mewn ysgolion newydd rydyn ni'n creu man canolog. Dangosodd GD luniau o Ysgol Gynradd Cwmaman a'r man canolog sy'n cynnwys ardaloedd ymneilltuo ar nifer o weithgareddau ar gyfer grwpiau bach.

Roedd GD wedi diolch i'r disgyblion am eu cwestiynau ac am eu mewnbwn ardderchog.